Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y cyfarfod	7 Mehefin 2021
Aelod / Swyddog Arweiniol	Gwilym Bury, Archwilio Cymru
Awdur yr adroddiad	Nicola Kneale, Pennaeth Dros Dro ar y Cyd ar gyfer Gwella Busnes a Moderneiddio
Teitl	Cynllun Archwilio, Archwilio Cymru 2022-23

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cynllun Archwilio, Archwilio Cymru 2022-23

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am y pynciau allweddol y bydd Archwilio Cymru yn eu cwmpasu yn eu gwaith ar Gyngor Sir Ddinbych yn 2022-23.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r cynllun a'u bod yn cael cyfle i holi cwestiynau er mwyn deall cyd-destun a chanolbwynt y cynigion.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Cyn bob blwyddyn ariannol, mae Archwilio Cymru yn cyhoeddi cynllun archwilio ar gyfer y meysydd y bydd yn canolbwyntio arnynt ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg uchel. Trafodwyd y cynllun gyda'r Tîm Arwain Strategol yn ddiweddar. Roedd Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw hefyd.

4.2. Mae'r Cynllun Archwilio sydd ynghlwm yn nodi'r meysydd archwilio, sef:
- Datganiadau Ariannol (swyddogaeth statudol Archwilio Cymru). Mae manylion

am gwmpas y maes gwaith hwn i'w gweld ar dudalennau 6-7 y ddogfen sydd ynghlwm.

- Archwiliad Perfformiad, gan gynnwys canolbwynt ar Ofal heb ei Drefnu; Trefniadau ar gyfer Swyddogaethau Cynnal y Cyngor, ac un arall i'w benderfynu. Gweler tudalen 9 i gael rhagor o fanylion.

4.3. Nid yw'r manylion am amseru o fewn y flwyddyn wedi'u penderfynu eto, ond bydd Archwilio Cymru yn rhoi gwybod i Gyngor Sir Ddinbych am ei gynlluniau trwy gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Pennaeth Dros Dro Gwella Busnes a Moderneiddio. Dylid nodi bod y cynllun yn hyblyg, gan gydnabod ei fod yn amodol ar y perygl y bydd Covid-19 yn effeithio ar amserlenni.

4.4. Caiff pob adroddiad am y pynciau uchod eu rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Corfforaethol pan fyddant ar gael.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd canlyniadau'r archwiliadau hyn yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n effeithiol ar draws amryw swyddogaethau, gan gynnwys o ran ei flaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Y ffi arfaethedig yw £333,372 (gweler dudalen 11 i gael manylion).

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Adroddiad am gynllun gwaith yw hwn, felly nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae hyn wedi'i drafod gyda'r Tîm Arwain Strategol, pan oedd Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn bresennol fel grŵp rheoleiddio i drafod meysydd risg yn y Cyngor er mwyn galluogi datblygiad y cynllun hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

9.1. Mae’r archwiliad blynyddol yn ddarpariaeth statudol. Mae’r ffioedd yn ymrwymiad presennol yn y gyllideb ar gyfer yr awdurdod.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â’r cynllun hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad. Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth.